# CLWB PLANT TRWY'R POST

Pecyn wythnosol 8
18/05/20

# Iesu'n mynd yn ôl i'r nefoedd

Stori a gweithgareddau i'w gwneud gartref tra dydyn ni ddim yn gallu cyfarfod.




**Paratowyd y pecyn hwn gan:**
Andy Hughes - Saint y Gymuned, Susan Williams - Cynllun EFE a Chapel Caersalem, Caernarfon, Nia Williams - Capel y Drindod Pwllheli, Jennifer Roberts - Eglwys Unedig Jerwsalem Bethesda gyda chymorth, syniadau ac adnoddau gan Cass Meurig, Kathryn Williams, Elin Bryn, Rhys Hughes & Greg Leavers


An English version is also available


**Dalier sylw os gwelwch yn dda. Am resymau hawlfraint dylai'r pecyn hwn gael ei ddosbarthu'n gyflawn ac yn rhad ac am ddim. Nid yw unrhyw adran o'r pecyn i gael ei ddefnyddio ar wahân neu ei gopïo gan unrhyw gyhoeddiad arall heb yn gyntaf gael caniatâd.** Cysylltwch ag Ahughes@saintygymuned.org



# Stori

**Fersiwn Beibl.net**
Annwyl Theoffilws: Ysgrifennais yn fy llyfr cyntaf am y pethau aeth Iesu ati i'w gwneud a'u dysgu cyn iddo gael ei gymryd yn ôl i fyny i'r nefoedd. Cyn mynd dwedodd wrth yr apostolion beth oedd am iddyn nhw ei wneud yn nerth yr Ysbryd Glân. Am bron chwe wythnos ar ôl iddo gael ei groeshoelio dangosodd ei hun iddyn nhw dro ar ôl tro, a phrofi y tu hwnt i bob amheuaeth ei fod yn fyw. Roedd yn siarad â nhw am beth mae teyrnasiad Duw yn ei olygu. Un o'r troeon hynny pan oedd yn cael pryd o fwyd gyda nhw, dwedodd fel hyn: “Peidiwch gadael Jerwsalem nes byddwch wedi derbyn y rhodd mae fy Nhad wedi'i addo. Dych chi'n cofio fy mod wedi siarad am hyn o'r blaen. Roedd Ioan yn bedyddio â dŵr, ond mewn ychydig ddyddiau cewch chi'ch bedyddio â'r Ysbryd Glân.”
Pan oedd y disgyblion yn cyfarfod gyda Iesu roedden nhw'n gofyn iddo o hyd, “Arglwydd, ai dyma pryd rwyt ti'n mynd i ryddhau Israel a'i gwneud yn wlad annibynnol unwaith eto?”
Ateb Iesu oedd: “Duw sy'n penderfynu pethau felly. Does dim rhaid i chi wybod beth ydy'r amserlen mae Duw wedi'i threfnu. Ond bydd yr Ysbryd Glân yn disgyn arnoch chi, ac yn rhoi nerth i chi ddweud amdana i wrth bawb – yn Jerwsalem a Jwdea, yn Samaria, a drwy'r byd i gyd.”
Yna ar ôl iddo ddweud hynny cafodd ei godi i fyny i'r awyr o flaen eu llygaid. Dyma gwmwl yn dod o'i gwmpas a diflannodd o'u golwg. Tra oedden nhw'n syllu i'r awyr yn edrych arno'n mynd, yn sydyn dyma ddau ddyn mewn dillad gwyn yn ymddangos wrth eu hymyl nhw, a dweud, “Chi Galileaid, beth dych chi'n ei wneud yma yn syllu i'r awyr? Mae Iesu wedi cael ei gymryd i'r nefoedd oddi wrthoch chi. Ond yn union yr un fath ag y gweloch e'n mynd bydd yn dod yn ôl eto.”
*Actau 1:1-11 Beibl.net*



**Fersiwn syml**
Wnaeth Iesu gwrdd â'i ffrindiau lawer gwaith ar ôl iddo fo ddod yn ôl yn fyw. Un tro, dwedodd o 'Peidiwch â gadael Jerwsalem nes bydd yr Ysbryd Glân wedi dod a rhoi nerth i chi.' Wedyn aeth i fyny i'r awyr, a diflannu tu ôl i gwmwl. Roedd y disgyblion yn methu â chredu eu llygaid! Ond dyma ddau ddyn mewn dillad gwyn yn dweud wrthyn nhw, 'Mae Iesu wedi mynd i fyny i'r nefoedd. Ond bydd yn dod yn ôl rhyw ddydd yn yr un ffordd ag yr aeth.'


# Cwestiynau i’w Trafod

Ar ôl darllen y stori efo’n gilydd, fe allech chi drafod y cwestiynau hyn fel teulu:

1. Beth wyt ti’n edrych ymlaen i’w wneud gyda dy ffrindiau pan fyddi’n eu gweld eto?
2. Beth sy’n arbennig am dy ffrindiau? Beth maen nhw’n ei wneud sy’n dangos eu bod yn ffrindiau da?
3. Sut wyt ti’n meddwl oedd ffrindiau Iesu’n teimlo pan aeth Iesu’n ôl i’r nefoedd?
4. Dwedodd Iesu wrth ei ffrindiau am wneud mwy o ffrindiau iddo. Sut wyt ti’n meddwl wnaethon nhw hynny?



# Lliwio




"Chi Galileaid, beth dych chi'n ei wneud yma yn syllu i'r awyr? Mae Iesu wedi cael ei gymryd i'r nefoedd oddi wrthoch chi. Ond yn union yr un fath ag y gweloch e'n mynd bydd yn dod yn ôl eto."

Beth am liwio hwn a'i roi yn y ffenestr

# BENDITH

'Boed i'r ARGLWYDD eich bendithio chi a'ch amddiffyn chi.
Boed i'r ARGLWYDD wenu'n garedig arnoch chi, a bod yn hael tuag atoch chi.
Boed i'r ARGLWYDD fod yn dda atoch chi, a rhoi heddwch i chi.'

Numeri 6:24-26



# Posau

A allet ti ddod o hyd i 5 gwahaniaeth rhwng y 2 lun hyn?





Dyma rai geiriau mewn drych. A allet ti ysgrifennu'r hyn y mae'n ei ddweud y ffordd iawn?

'Mae Iesu y Meseia yr un fath bob amser - ddoe, heddiw ac am byth!'

Hebreiaid 13:8

# Chwilair

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P | E | B | E | N | D | I | TH | I | O | D | R |
| A | I | R | A | M | A | S | A | PH | I | L | I |
| DD | G | N | A | L | G | O | D | W | E | U | D |
| O | P | A | O | Y | M | DD | A | NG | O | S | A |
| L | TH | E | L | I | E | O | LL | W | H | I | U |
| I | C | W | M | W | L | A | I | M | Y | D | N |
| A | U | O | J | W | A | B | D | N | U | R | N |
| W | J | J | S | B | S | U | Y | A | LL | U | A |
| D | A | W | Y | E | W | F | B | G | Y | S | L |
| E | N | D | S | C | R | Y | R | E | S | E | F |
| A | DD | E | O | F | E | N | Y | W | G | I | I |
| L | R | A | F | E | J | Y | S | B | R | Y | D |

ADDOLI
AWYR
BENDITHIO
BYD
CWMWL
DAU
DIFLANNU
DILLAD
DISGYBLION
DWEUD
FYNY
GLÂN
GWYN
IESU
JWDEA
JERWSALEM
NEFOEDD
SAMARIA
SYLLU
YMDDANGOS
YSBRYD



# Sialens

## Beth sydd ar goll?

Yn yr hanes o'r Beibl yr wythnos hon, mae Iesu'n gadael y disgyblion ac yn mynd yn ôl at Dduw i'r nefoedd.

**Bydd angen:**
10 o bethau bach sydd o gwmpas y tŷ, tebyg i'r pethau yma -

- cwpan
- llwy
- chwalwr
- pensil
- darn o lego
- ffôn
- siswrn
- fforc
- tun o ffa pob
- afal



**Sut i wneud y sialens**

- Gosoda'r pethau ar fwrdd.
- Tro dy gefn arnyn nhw – a phaid â sbecian!
- Gofynna i rywun dynnu un peth oddi ar y bwrdd a'i gadw o'r golwg.
- Yna, tro i edrych ar y bwrdd a cheisia gofio beth sydd ar goll.
- Gwna hyn fwy nag unwaith.
- Beth am roi sialens i bobl eraill yn y tŷ hefyd?



Beth am geisio gwneud model o'r stori gan ddefnyddio Lego?

O Dduw, diolch i ti am anfon Iesu i'r byd.
Diolch i ti fod Iesu mor dda ac mor wych!
Diolch i ti fod Iesu eisiau bod yn ffrind gorau i mi.
Plîs helpa fi i fod yn ffrind da i Iesu.
Amen



# Gweddi fer

# Crefft


## Esgyniad



### Esgyniad Iesu

Byddi angen: cwpan bapur, papur glas, gwlân cotwm, gwlân gwyn, cerdyn gwyn i argraffu'r templedi arno, siswrn, glud, pinnau ffelt, sgiwer bambŵ



1.Argraffa'r templedi ar y cerdyn gwyn a'u torri nhw allan.



2.Lliwia Iesu.



3.Torra'r papur glas yn sgwariau.



4.Gorchuddia'r gwpan bapur â glud ac yna gluda'r sgwariau papur glas dros y gwpan.



5.Gwna dwll yn nhop y gwpan yn y canol gyda'r sgiwer.



6.Gorchuddia rannau o'r gwpan â gwlân cotwm i edrych fel cymylau.



7.Â'r siswrn torra ddarn o wlân gwyn neu edau 24cm o hyd.


8.Gorchuddia gwmwl â glud a'i roi yn sownd ar ben y gwlân. Rho'r ail gwmwl dros y gwlân a'r cwmwl– gwna'n siŵr dy fod yn gosod y cymylau'r ffordd gywir fel eu bod yn cyfateb.



9.Gwthia'r gwlân drwy'r twll ar dop y gwpan.



10.Gorchuddia gefn Iesu â glud a gluda'r pen arall i'r gwlân arno. Yna gluda'r ddau dempled i'w gilydd i wneud Iesu cyfan.



# Rysáit



## Meringues

**Bydd angen**
- 150g o siwgr mân
- 3 gwynwy
- Pinsiad o halen
- Llwy de o rinflas fanila (dewisol)
- Llenwad
- Hufen a ffrwyth o dy ddewis di

**Dull**
1. Gwahana'r gwynwy oddi wrth y melynwy.
2. Cura'r gwynwy hyd nes y bydd yn wlanog.
3. Ychwanega'r siwgr fesul llwyaid a chura'r gymysgedd nes y bydd yn ffurfio pigau.
4. Gorchuddia'r tin pobi â phapur gwrthsaim.
5. Rho lwyaid o'r gymysgedd ar y papur gwrthsaim. Ar gyfer meringues bychan defnyddia lwy de ac ar gyfer meringues mawr defnyddia lwy bwdin.
6. Bydd angen i ti wastatáu ychydig ar bennau'r meringues.
7. Gosoda nhw ynghanol y popty ar wres o 140 gradd C, 275 gradd F neu Farc 1 ar gyfer popty nwy.
8. Bydd meringues mawr angen 1 awr a'r rhai bychain angen 15 munud. Poba nhw nes y byddant yn frown golau.
9. Chwisgia'r hufen.
10. Torra fefus neu ffrwyth arall i edrych fel dyn bach. Rho'r hufen ar blât, yna'r meringue ar ben yr hufen ac yna gosoda'r dyn ffrwyth ar ben y meringue.




















# Gweddi Greadigol

## Gweddïau'n hedfan

**Bydd angen:**
- Torri'r siâp allan o gwmpas y llinell ddu.
- Clip papur
- Pinnau ffelt



**Beth i'w wneud:**
- Torra siâp yr 'hofrennydd' allan.
- Addurna un ochr i'r 'hofrennydd' papur.
- Ysgrifenna weddi i ddiolch i Dduw am rywbeth neu rywun.
- Plyga un rhan o'r gynffon ymlaen a'r llall yn ôl.
- Rho glip papur yn sownd yn y trwyn.
- Gollwnga' 'hofrennydd' a gwylia fo'n troelli!




## Ffrind i Iesu

**Bydd angen:**
- Papur a phensil
- Pinnau ffelt

**Beth i'w wneud:**
- Meddylia am un o dy ffrindiau sydd ddim yn adnabod Iesu.
- Tynna lun o dy ffrind yng nghanol y papur.
- Tynna lun y pethau mae dy ffrind yn eu hoffi a'u mwynhau o gwmpas ei lun.
- Ysgrifenna weddi sy'n debyg i hon dros dy ffrind ar y papur:
  'O Dduw, diolch i ti am gael ... yn ffrind i mi.
  Plîs helpa ... i ddod yn ffrind i Ti.





# Gemau



## Gêm y Cymylau Gwlanog



**Bydd angen:**

- Peli gwlân cotwm
- Dwy bowlen
- Gwelltyn
- Ffôn er mwyn amseru dy hunan

**Sut i Chwarae'r Gêm**

- Rho 10 pelen wlân mewn powlen.
- Yna symuda'r pelenni gwlân un ar y tro o un bowlen i'r llall drwy eu sugno fyny â gwelltyn.
- Amsera dy hunan neu fe elli di rasio yn erbyn aelod(au) o'r teulu.

## Sanau yn y Bowlen

Yn yr hanes o'r Beibl yr wythnos hon mae Iesu'n dweud wrth ei ddisgyblion am wneud ffrindiau iddo yn Jerwsalem (oedd yn agos), Jwdea (oedd ychydig yn bellach), Samaria (oedd yn bellach eto) ac thrwy'r holl fyd (oedd yn bell iawn!).



**Bydd angen:**

- Pâr o sanau wedi eu gwneud yn belen
- Powlen neu bwced neu fasged
- Tair cadair

**Sut i chwarae:**

- Gosoda'r y bowlen un ochr i'r ystafell neu yn yr ardd.
- Gosoda dair cadair ar gyfer y bowlen gyda phob cadair ychydig yn bellach oddi wrth y bowlen.
- Mae pob chwaraewr yn cael tro i daflu'r bêl sanau i mewn i'r bowlen yn ei dro.
- Mae'r chwaraewr yn cael 10 pwynt am daflu'r bêl sanau i'r bowlen o'r gadair gyntaf, 20 pwynt o'r ail gadair a 50 pwynt o'r gadair bellaf oddi wrth y bowlen.
- Cofia gadw sgôr!

## Marblis



**Bydd angen:**

- Marblis
- Sialc neu linyn hir, tenau
- 2 chwaraewr ar y tro

**Sut i chwarae:**

- Tu allan i dy dŷ (yn yr ardd), tynna gylch gyda'r sialc, neu gwna siâp cyclch gyda'r llinyn os wyt ti'n chwarae tu fewn.
- Rhanna'r marblis yn gyfartal rhwng y ddau chwaraewr – tua 13 marblen bob un ac un farblen fawr.
- Mae pob chwaraewr yn cael tro i rolio ei farblen fawr i daro marblen fach allan o'r cylch.
- Os ydy o'n llwyddo, mae'n cadw'r farblen ac yn cael tro arall.
- Os ydy o'n methu, tro'r chwaraewr arall ydy hi.
- Mae'r gêm yn parhau nes bod pob marblen wedi'i tharo allan o'r cylch.
- Yr enillydd ydy'r chwaraewr sydd wedi taro'r nifer mwyaf o'r marblis allan o'r cylch.

# Gemau



## Gêm Dysgu Adnod

Hebreiaid 13:8 ‘Mae Iesu y Meseia yr un fath bob amser – ddoe, heddiw ac am byth!’

**Bydd angen:**
- Geiriau’r adnod wedi’u torri allan
- 9 cwpan blastig
- Tâp selo


**Sut i chwarae:**
- Gluda ddarnau’r adnod ar y cwpanau gan roi’r geiriau ar ben i lawr bob yn ail gwpan.
- Gwna dŵr gyda’r cwpanau gan osod yr adnod yn ei threfn.
- Beth am gael cystadleuaeth i weld pwy yn eich tŷ chi fedr adeiladu’r tŵr gan roi’r adnod yn ei threfn yn yr amser cyflymaf?



| | | |
|---|---|---|
| Mae Iesu | y Meseia | yr un fath |
| bob amser | - ddoe, | heddiw |
| ac am byth! | Hebreaid 13 | adnod 8 |

## Ras Dominos

Sut oedd y disgyblion am wneud ffrindiau newydd i Iesu ar draws y byd? Wel, roedden nhw’n cychwyn trwy ddweud wrth bobl oedd yn byw yn ymyl. Roedd y bobl hyn yn dweud wrth bobl eraill, a’r bobl rheini’n dweud wrth bobl eraill nes, yn y diwedd, roedd pobl ar draws y byd yn dod i wybod fod Iesu eisiau bod yn ffrind iddyn nhw.



**Bydd angen:**
- Dominos neu flociau Jenga neu flociau chwarae
- Papur a phensil a siswrn.
- Tâp selo

**Sut i chwarae:**
- Tynna lun dau berson bach ar ddau ddarn o bapur yr un maint â’r dominos.
- Defnyddia’r tâp selo i ludo un person ar un domino a gludo’r person arall a’r ddomino arall.
- Gosoda un domino gyda llun person arno i sefyll ar un pen.
- Yna gosoda’r dominos mewn rhes hir tu ôl i domino y person bach.
- Rho’r domino gyda llun y person bach arall ar ddiwedd y rhes.
- Nawr, gwthia’r domino cyntaf gyda dy fys ... a gwylia’r cwbl yn disgyn yr holl ffordd at y person bach ar ben y rhes!



# Canu

Iesu ni fyth newidia,
byth bythoedd, byth newidia Ef.
Efe fydd yr un, bob dydd yr un,
Dim newid ynddo Ef.
Ac yn Fab Duw Dad, ein Brenin ni
ac Arglwydd yr holl fyd,
heddiw, ddoe a phob yfory
Iesu'r un o hyd.
Heddiw, ddoe a phob yfory
Iesu'r un o hyd. Oi!

Hawlfraint 1990 Greg Leavers
Cyf. Dafydd Timothy / Hywel Rhys Edwards

Gwyliwch y gân hon a chydganu drwy glicio ar https://youtu.be/JeFujkunu6k
Os hoffech chi gerddoriaeth (hen noddiant) ar gyfer y gân hon,
cysylltwch ag Andy Hughes - Ahughes@saintygymuned.org

# Dolenni



Sgetsh o'r stori https://youtu.be/bX4gU7Nq_-Q
Fideo o gân yr wythnos https://youtu.be/JeFujkunu6k
Gwybodaeth am app Arwyr Ancora - app gêm sydd ar gael am ddim https://arwyrancora.com/
Teyrnas y Teulu - syniadau/gemau https://youtu.be/Pxy_pE5nzVY (cliciwch 'Subscribe')
Adnoddau eraill https://www.prayerspacesinschools.com/prayer-spaces-at-home
Fideo o'r stori (Saesneg) https://www.youtube.com/watch?v=oH-N6Erg5Xw